# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR FAWRTH 6ed, 2024

## Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd) Cyng. Maldwyn Lewis
Cyng. Emyr Jones Cyng. Mark Davies
Cyng. Sian Williams Cyng. Sharon Thomas
Cyng.Teifi Evans Cyng. Carol Davies

**Clerc** Rhian Jones

Cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda ‘r Cynghorydd Sharon Thomas ar golli ei mam yn ddiweddar a diolchwyd am y garden a dderbyniodd.

Ymunodd Derrick a Shirley Hartley o Frongest ar ddechrau’r cyfarfod i ddatgan eu pryder am golled y gwasanaeth Bwcabys.Mae trigolion yr ardal ar goll hebddo. Dangosodd y Cynghorwyr eu consyrn am drigolion y plwyf hefyd yn dilyn torri’r gwasanaeth yn gyfangwbl. Nodwyd fod cyfarfod wedi bod yn Llandysul a chafwyd cynrychiolaeth dda yno. Hefyd nodwyd ein bod wedi cysylltu eisioes fel Cyngor gyda Ben Lake ac Elin Jones. Bydd y Clerc yn cysylltu a nhw eto.
Nodwyd oherwydd cost rhedeg y gwasanaeth y byddai’n rhatach cael tacsi. Nododd Derrick a Shirley fod y gwasanaeth wedi prynnu dau fws newydd yn ddiweddar – pam gwastraffu arian pan oeddynt yn bwriadu gorffen y gwasanaeth yn gyfangwbl? Mae rhai o drigolion y pentrefi cyfagos oedd yn ddibynnol ar Bwcabys wedi gorfod canslo apwyntiadau meddygol oherwydd nad ydynt yn medru gyrru. Heb y math hwn o wasanaeth y pryder yw fydd pobl yn symud allan o’r pentrefi gan nad oes modd o gludiant – yn enwedig wrth i bobl heneiddio.

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng. Rob Jones, Cyng. Llyr Evans a’r Cyng.Roger Davies

.

**2. Datgan Diddordeb**

**3. Cofnodion**
**3.1 -** Derbyniodd bawb gopi o gofnodion mis Chwefror ond roedd y Clerc wedi anghofio nodi fod y Cyng Teifi Evans wedi eilio fod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
**3.2** – Cynigiodd y Cyng Maldwyn Lewis fod cofnodion mis Chwefror yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng Emyr Jones.

**4.Materion yn Codi**

4.1 – Mandate Nat West – wedi derbyn e-bost ond fel adobie ac nid Nat awest ( heb sylweddoli mae dyna beth oedd e).Mae’r Cynghorwyr CJ a MD eisioes wedi arwyddo’r Mandate.
4.2 – Cynhelir cwrs De-fib nos fercher, Mawrth 20fed yn Neuadd Ffostrasol. Nodwyd fod Recordiad o ‘Dechrau Canu Dechrau Canmol’ yr un noson yng Ngapel Glynarthen ar gyfer Sioe’r Cardis. Penderfynwyd parhau gyda’r noson a fydd tua 2 awr o hyd ac mae ond lle i 20 o bobl fydd yna i fynychu. Bydd yn dechrau am 7 o’r gloch. Y gobaith ydy rhanu’r digwyddiad ar dudalen Facebook Ffrindiau Ffostrasol hefyd er mwyn lledaenu’r neges. Bydd rhaid bwcio lle ymlaen llaw.
4.3 – Does dim ymateb wedi bod wrth Derryck na Gwyn am yr Awdit. Bydd y Clerc yn cysylltu a nhw eto.

4.4 – Angen cysylltu gyda Owenna Davies o Ffostrasol i ofyn am unrhyw fath o gymorth gyda adnewyddu arwydd T Llew Jones tu allan i Neuadd Coedybryn. Angen copi o'r lluniau.

4.5 - Mainc i'r Ardal – Mae angen rhoi concrit o danynt rhag iddynt gael eu dwyn. Nodwyd efallai y byddai yn haws eu rhoi i sefyll ar ben 'paving slabs' neu eu cysylltu wrth y wal tu cefn yn hytrach na rhoi concrit oddi tanynt. Mae'r un broblem yn y ddwy safle ond nodwyd wedi gweld lluniau o'r meinciau eu bod yn edrych yn rhai hyfryd.

4.6 – Dal angen rhoi Office 365 ar gluniadur y Clerc. Efallai os fydd digon o amser cyn diwedd y cyfarfod y medrwn eu wneud heno.

4.7 – Adrodd nol o'r cwrs.

* Mae y Cynghorwyr ML, CJ a RD wedi cwblhau Modiwl 1.
* Trafodwyd faint oedd angen er mwyn cael Corwm – rhaid i ni ddilyn y canllawiau sydd gennym ni fel Cyngor Cymuned, sef 5 yn cynnwys y Cadeirydd.
* Mae angen i'r Clerc roi nodiadau bras o'r cyfarfod ar y wefan o fewn wythnos yn cynnwys pwy oedd yn bresennol, ymddiheuriadau a'r prif bwyntiau a drafodwyd.
* Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ymuno ar ddechrau'r cyfarfod – ond nodwyd mae ond 10 munud sydd ganddynt i drafod a nodi eu cwynion. Byddai rhaid iddynt gysylltu ymlaen llaw os am ymuno ar ddechrau'r cyfarfod gan nodi pa agwedd maent am drafod. Rhoi ar yr Agenda a nodi fod ein cyfarfodydd fel arfer trwy gyfrwng y Gymraeg. ( codwyd fodein ymwelwyr heno wedi son " you got rid of it" am Wasanaeth Bwcabys – er nad oedd yn ddim i wneud gyda ni fel Cyngor Cymuned. Teimwyd ein bod yn gwneud gwaith aniolchgar iawn.)
* Bydd rhaid i ni feddwl am ffordd o addasu ein cyfarfodydd i fod yn hybrid i allu ymuno ar lein.
* Bydd angen i ni greu adroddiad blynyddol o beth rydym wedi gwneud dros y flwyddyn.
* Angen i'r Clerc wneud Cynllun o'r Cyrsiau a fynychir ac mae angen Cyrsiau ar y Clerc hefyd ( SLCC)
* Bydd y Clerc yn trefnu fod mwy o'r Cynghorwyr yn mynychu cyrsiau yn ystod y mis nesaf.

4.8 –Siom enfawr nad ydym wedi derbyn unrhyw ymateb wrth Clic am sefyllfa gofidus y diffyg blychau halen ym Mrongest. Mae Diogelwch y cyhoedd yn hanfodol bwysig.

4.9 – Codwyd fod y twll yn y ffordd yn Ffostrasol wedi cael ei lenwi – ond ei fod yr un mor wael eto. Mae angen ei lenwi yn barhanol ac nid dros dro..

4.10 – Mae padiau newydd wedi eu rhoi ar y De-ffib yng Nghoedybryn.

4.11 – Bu ymateb Pauline yn wych, daeth allan yn syth pan fu rhaid defnyddio'r De-Ffib yn Croeslan. Bydd rhaid i ni dalu am fatris aphadiau y y dyfodol agos.

4.12 - Ymddangosodd Error ar y De-fib sbar sydd gennym ac fe anfonodd y Cynghorydd Ceri Jones ef yn ol at Calon Hearts i'w adnewyddu.

**5. Materion y Cynghorydd Sir.**

- 5.1 - Bydd cynnydd o 10% yn nhreth y Cyngor yn ogystal a 1.1% i'r Gwasanaeth Tan a fydd yn gwneud cyfanswm y cynnyddd yn 11.1%
- 5.2 - Mae'n debyg na fydd parcio am ddim yn bodoli bellach a bydd rhaid talu am barcio yn Llandysul yn y dyfodol agos.
- 5.3 – Mae Tai bach Penbeyn a Tresaith yn cael eu ariannu o'r Cyngor Cymuned lleol. Hefyd bydd cynghorau tref a chymunedau yn gyfrifol am dalu am dorri cloddiau ac ati.
- 5.4 - Mae App newydd ar gael er mwyn agor cyfrif i dalu trwy 'My Account'
- 5.5 – Mae'r gwaith ar y Morglawdd yn Aberaeron yn parhau.
- 5.6 – Yn Ysgol Dyffryn Aeron bu plant yn arwyddo paneli oedd yn cael eu gosod fel rhan o'r adeilad a diddorol fu siarad gyda nhw am y fformat adeiladu.

- 5.7 – Mae pryder am y Casgliadau sbwriel ond bydd clytiau babanod yn dal i gael eu casglu, ond bydd y bagiau du yn cael eu casglu yn llai aml ac ond 3 bag y gellir eu rhoi allan ar y tro. ( Nodwyd nad oedd y bagiau du wedi cael eu casglu mewn sawl pentref yr wythnos diwethaf.)

**6.Gohebiaeth**

6.1 – Marie Curie – anfon e-bost atynt yn nodi fod angen llenwi'r ffurflen briodaol os yn holi am nawdd ariannol.

6.2 – Cysylltodd Lesley o Solution Factory – er mwyn cyrraedd mwy o bobl gyda'n tudalen Facebook, efallai byddai modd rhannu gwybodaeth yn fwy cyson a chysylltu gyda thudalennau lleol arall.

6.3 – Elin Jones wedi anfon holiadur a oes angen newid rhai ardaloedd sydd a 20mya yn ol i 30mya. Hefyd o oes rhai ffyrdd ble mar angen gostwng y cyflymder. Llenwyd yr holiadur yn ystod y cyfarfod.

6.4 – Cwrs Social Media ar gael i ddau aelod am ddim.

6.5 – Mae Cronfa Cynnal y Cardi yn agored Hysbysu ar Facebook gan fod 2 lefel o ariannu ar gael.

6.6 – Gavin o Openreach. Talebau ar gael i drigolion Rhydlewis er mwyn gwella'r system. Mae 93 wedi eu debyn yn barod, sef 43%. Mae 790 o dai yn yr ardal. Mae son amdano wedi bod yn y Caffi Cymunedol yn Rhydlewis.

6.7 – Cynllun Tai Cymunedol – Cefnogi mwy o bobl i gael tai cynaladwy.

6.8 – Derbyniwyd e-bost wrth Dilys Rees i ddiolch am y llythyr a dderbyniodd ar ol colli ei thad.

**7.Cynllunio**

7.1 – Brongest – Porthyrhyd. Newid adeilad i dy gwyliau trwy ychwanegu 2 ffenest a chodi 'r to. Mae angen mwy o fanylion am yr ardal warchodedig.
Os ydynt yn dilyn argymhellion NRW nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

7.2 – Rhydlewis, Llwyniwan. Wedi hir drafod ac edrych ar yr holl wrthwynebiadau gan drigolion lleol oherwydd y cynnydd traffig a swn o fewn pentref gwledig bychan y penderfyniad oedd gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn.

**8. Cyllid**

Cytunodd pawb i dalu'r sieciau ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr, ST, EJ a ML.

| | |
|---|---|
| EDAF - £300 | **001742** |
| Grant Wi-Fi Neuadd Coedybryn - £300 | **001743** |
| Grant Sioe Dyffryn Teifi - £500 | **001744** |
| HMRC - £64.40 | **001745** |
| Cyflog y Clerc - £258.18 | **001746** |
| The Solutions Factory - £150 | **001747** |

**9. Materion Ardal**

9.1 – Brongest yn dal i ddisgwyl y Bocsys Halen

9.2 – Ffostrasol – pobl yn cerdded o Bwlchygroes i Croeslan i fynd i'w gwaith ac mae hyn yn beryglus gan nad oes palmant o gwbl. Rhaid i bobl fynd i fyny y cloddiau os oes dau gerbyn yn pasio eu gilydd.

9.3 – Mae car Fiat Panda wedi parcio ger Brynhelyg - ar y troad sy'n mynd tuag at Protherics ac mae wedi bod yno ers wythnosau.

9.4 – Mae newidiadau ar y gweill i ffonau yr ardal gan eu bod yn mynd yn ddigidol ac ond yn gweithio trwy Wi-Fi –ond os fydd torriad trydan ni fydd modd ffonio 999.

9.5 – Mae'r cigydd Gary Reynolds wedi ymuno gyda Mark Webb a cyn mynd ar gwasanaeth o amgylch yr ardal. Mae pobl yn hoffi hyn, Hefyd mae gwasanaeth Llaeth y Dyffryn wedi dechrau'n ddiweddar, ac mae pobl ym mwynhau cael y math yma o wasanaethau at eu drws.

9.6 – Ffostrasol – mae'r con yn dal i achosi helynt ar y palmant.
9.7 – Coedybryn – Mae pryder fod cerbydau yn cael eu parcio ar y sgwar sy'n gallu bod yn beryglus i deithwyr eraill.
9.8 – CLIC – Mae sawl lori wedi cael trafferth ar y lonydd cul yn Maesllyn. Mae angen arwyddion yng Nghoedybryn a Croeslan nad yw'r ffordd yn addas i gerbydau hir – er mae dyna'r ffordd mae SAT-Nav yn eu harwain.
9.9 – Estynwyd Llongyfarchiadau i CffI Pontsian am ddod yn 3ydd yn y Gystadleuaeth Ddrama yn ddiweddar.
9.10 – Pob Lwc i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni.
9.11 – Llongyfarchiadau i Gareth Thomas, Llangynllo ar gael ei ddewis yng Ngharfan Rygbi Cymru unwaith eto.

**10. Cyfarfod Nesaf**

10.1 – Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Ffostrasol ar Ebrill 2il am 7:30 o'r gloch.

10.2 Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnod y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 10:15 yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

------------------------------------------------------- -------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad